

## **RHYBUDD o benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac yn rhithiol dros Zoom, ddydd Mawrth 19 Mawrth 2024**

Cyhoeddir y rhybudd hwn am 5:00pm dydd Iau, 21 Mawrth, 2024. Rhaid cyflwyno unrhyw geisiadau i alw i mewn unrhyw benderfyniad i'r Prif Weithredwr erbyn dim hwyrach na 5:00pm dydd Iau, 28 Mawrth 2024. Daw'r penderfyniadau i rym (os na fydd cais dilys i'w galw i mewn) ddydd Mawrth 2 Ebrill 2024.

**Yn bresennol:** Cynghorwyr Llinos Medi (Cadeirydd), Dafydd Rhys Thomas, Carwyn Jones, Robin Williams, Gary Pritchard, Alun Roberts, Dafydd Roberts a Nicola Roberts

**Hefyd yn bresennol:** Cynghorwyr Glyn Haynes, Trefor Lloyd Hughes, MBE, Dyfed Wyn Jones, Gwilym O. Jones, Robert Ll. Jones, Jackie Lewis

**Ymddiheuriadau:** Cynghorydd Neville Evans

(10:00 a.m. tan 11:35 a.m.)

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>3 Cofnodion</b> Amherthnasol
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd bod cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Gwaith ar gynhaliwyd ar y dyddiadau canlynol yn gywir –</b> <ul style="list-style-type: none"><li>• 20 Chwefror, 2024</li><li>• 29 Chwefror, 2024 (arbennig)</li></ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Amherthnasol</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Amherthnasol</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Amherthnasol</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Amherthnasol</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Amherthnasol</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>4 Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith</b> Adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth
------------------------	---

PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd cadarnhau Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddarau am y cyfnod o Ebrill i Tachwedd 2024, fel y'i cyflwynir.</b>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaen gynllunio</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Dim</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Dim</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Oes</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>5 Monitro'r Cerdyn Sgorio - Chwarter 3, 2023/24</b> Adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd derbyn y cerdyn sgorio corfforaethol ar gyfer Ch3 2023/24 a nodi'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol ynghyd â'r mesurau lliniaru fel y nodir yn yr adroddiad</b>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Adnabod meysydd sy'n tan berfformio yn y Cyngor</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Dim</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Dim</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Oes</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>6 Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach ar gyfer 2022/23</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd –</b>  <b>• Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a</b>

	<p>Chyfrifon Drafft Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn 2022/23 (Atodiad A yr adroddiad).</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yr awdurdod i lofnodi'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Terfynol a'u ffeilio gyda'r Comisiwn Elusennau ar ôl cwblhau'r archwiliad yn foddhaol.</li> <li>• Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151, yr awdurdod mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, i edrych ar opsiynau ar gyfer cynyddu incwm o Ystâd Elusennol David Hughes, er mwyn diogelu hyfywedd tymor hir Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn er budd pobl ifanc Ynys Môn. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn dewis yr opsiwn i'w ddilyn.</li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol yn unol â gofynion y Comisiwn Elusennau
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>7 Cynllun Strategol Taclo Tlodi 2024-29</b> Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
PENDERFYNIAD	<p><b>Penderfynwyd –</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymeradwyo'r Cynllun Strategol Taclo Tlodi drafft ar gyfer 2024-29.</li> <li>• Cefnogi'r argymhelliad gan Sgriwtini bod llythyr ar y cyd ar ran yr Awdurdod hwn a Grŵp Llandrillo Menai yn cael ei anfon i Lywodraeth Cymru a San Steffan i fynegi pryder ynghylch</li> </ul>

	effeithiau penderfyniadau diweddar i leihau'r cyllid yn sylweddol ar gyfer cynlluniau prentisiaethau yn y DU.
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Mae Taclo Tlodi'n cael ei adnabod fel blaenoriaeth strategol ac mae'n cyd-fynd â'r prif amcanion yng Nghynllun y Cyngor</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Datganiad o ddiddordeb personol yn unig gan y Cynghorydd Nicola Roberts</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Dim</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Oes</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>8 Cynllun Strategol Rheoli Asedau Corfforaethol 2024-2029</b> Adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd argymell y Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-2029 i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor llawn.</b>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>I osod y trywydd strategol a'r egwyddorion fydd yn arwain prosesau a'r gwaith o wneud penderfyniadau ynghylch asedau tan 2029</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	<b>Dim</b>
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	<b>Dim</b>
YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Amherthnasol. Mae'r Cynllun wedi ei glustnodi i'w gymeradwyo gan y Cyngor Llawn</b>

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>9 Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2024 - 2054</b> Adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Tai
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd cymeradwyo Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2024-2054.</b>

RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

## EITEM GYFRINACHOL

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>11 Rhaglen Amlinellol Strategol - Rhaglen Dreigl</b> Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
PENDERFYNIAD	<b>Penderfynwyd –</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cymeradwyo'r Rhaglen Amlinellol Strategol – Rhaglen Dreigl (SOP)</li> <li>• Awdurdodi Swyddogion i gyflwyno'r Rhaglen Amlinellol Strategol – Rhaglen Dreigl 9 mlynedd (RhAS / SOP) terfynol i swyddogion Llywodraeth Cymru cyn y terfyn amser sef 31 Mawrth 2024.</li> <li>• Bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, mewn ymgynghoriad â'r Deilydd Portffolio – Addysg a'r Gymraeg, y Dirprwy Arweinydd a Deilydd Portffolio Cyllid, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro, i newid yr RhAS os oes angen – os nad yw'r newidiadau'n arwain at newidiadau sylweddol o ran polisi, egwyddorion, cyfraniad ariannol, risgiau a niwed i drydydd parti.</li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	I osod blaenoriaeth y RhAS ar gyfer y cyfnod nesaf o ariannu seilwaith strategol gan y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim

CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim
YMGYNGHORI, OS O GWBL	Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig
A OES MODD EI ALW I MEWN?	Oes

## EITEM GYFRINACHOL

RHIF YR EITEM A'R PWNC	<b>13 Porthladd Rhydd Ynys Môn - Llywodraethiant</b> Adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
PENDERFYNIAD	<p><b>Penderfynwyd –</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Rhoi sêl bendith i'r Cyngor greu Cwmni Cyfyngedig drwy Warrant i weithredu fel endid cyfreithiol ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn.</li> <li>• Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, i gytuno ar Erthyglau'r Cwmni a'i Gytundeb Aelodau.</li> <li>• Dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, i barhau i drafod gyda rhanddeiliaid allweddol a, lle bo'n briodol, gwahodd y cyfryw rhanddeiliaid i fod yn aelodau o Gwmni Porthladd Rhydd Ynys Môn.</li> </ul>
RHESWM AM Y PENDERFYNIAD	<b>Cytuno ar strwythur llywodraethu a threfniadau gweithredol ar gyfer Porthladd Rhydd Ynys Môn</b>
DATGANIAD O DDIDDORDEB	Dim
CANIATÂD ARBENNIG WEDI EI ROI?	Dim

YMGYNGHORI, OS O GWBL	<b>Fel yr amlinellir yn yr adroddiad ysgrifenedig</b>
A OES MODD EI ALW I MEWN?	<b>Oes</b>